

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

14 Mehefin 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Hysbysu\) \(Cymru\) 2010](#) ("Rheoliadau 2010") sy'n gosod rhwymedigaethau ar wahanol bersonau at ddiben atal mynychder neu ledaeniad haint neu halogiad, diogelu rhagddo, ei reoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd iddo.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Y weithdrefn

Gwnaed y Rheoliadau gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol, oherwydd, yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r Rheoliadau yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf honno sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ymateb i'r achosion presennol o frech y mwncïod yn y DU.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddiwynnu ar y pwerau yn adrannau 13, 45C(1), (2), (3)(a) a (b), 45F(2), 45P(2) a 60A o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Hysbysu\) \(Cymru\) 2010](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 (Clefydau a Syndromau Hysbysadwy) ac Atodlen 2 (Cyfryngau Achosol) i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 at ddibenion cynnwys brech y mwncïod a firws brech y mwncïod, yn y drefn honno.

Mae Rheoliad 2(2) yn mewnosod "brech y mwncïod" yn Atodlen 1 i Rheoliadau 2010 at ddibenion ychwanegu hwn at y rhestr o'r "Clefydau a Syndromau Hysbysadwy" y mae dyletswydd ar ymarferwyr meddygol i hysbysu'r swyddog priodol mewn awdurdod lleol perthnasol amdanynt os credir bod clefyd neu syndrom o'r fath ar glaf y maent yn ei wasanaethu. Mae'r ddyletswydd hon yn estyn i hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd, haint neu halogiad mewn corff marw.

Mae Rheoliad 2(3) yn mewnosod “firws brech y mwncïod” yn Atodlen 2 i Reoliadau 2010 at ddibenion ychwanegu hwn at y rhestr o’r “Cyfryngau Achosol” y mae dyletswydd ar weithredwyr labordai diagnostig i hysbysu swyddog priodol mewn awdurdod lleol perthnasol amdanynt os ydynt yn darganfod cyfrwng, neu dystiolaeth o gyfrwng o’r fath, mewn sampl ddynol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn briodol o ystyried y risgiau i iechyd y cyhoedd yn sgil yr achosion presennol o frech y mwncïod yn y DU.

5. Ymgynghori

Gan fod y Rheoliadau'n darparu diwygiad cyfyngedig, sy'n effeithio ar nifer fach o unigolion ac nad yw'n adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ni chafwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i ymateb i'r achosion presennol o frech y mwncïod yn y DU.